Siarter y Brifysgol

ELIZABETH YR AIL drwy Ras Duw Brenhines Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a'n Gwledydd a'n Tiriogaethau Eraill: Pennaeth y Gymanwlad, Amddiffynnydd y Ffydd:

I BAWB Y DAW'R PRESENOLION HYN ATYNT, CYFARCH!

YN GYMAINT ag y darfu i'w Mawrhydi y Frenhines Victoria ar y degfed dydd ar hugain o Dachwedd yn y flwyddyn Mil wyth cant a naw deg tri ganiatáu Siarter (a elwir wedi hyn yn "Siarter 1893") yn cyfansoddi ac yn sefydlu Prifysgol yng Nghymru ac ar gyfer Cymru, mae paragraff cyntaf Erthygl gyntaf y Siarter honno fel a ganlyn:

"I. SEFYDLU PRIFYSGOL CYMRU

Fe fydd ac fe gyfansoddir ac fe sefydlir drwy hyn Brifysgol yng Nghymru a Sir Fynwy (y cymerir bod y Sir honno wedi ei chynnwys yn y gair 'Cymru' lle bynnag y bo Cymru yn digwydd wedi hyn yn hon Ein Siarter) ac ar gyfer Cymru, ac iddi'r enw Prifysgol Cymru ac yn ôl yr enw hwnnw y bydd ac y sefydlir drwy hyn y Canghellor ac aelodau eraill Prifysgol Cymru yn gorff corfforedig ag olyniaeth barhaol a Sêl Gyffredin ac â'r pŵer heb unrhyw drwydded bellach mewn marwddaliad i gymryd, prynu a dal a hefyd i werthu, caniatáu, cyfnewid, prydlesu neu waredu mewn unrhyw ffordd arall eiddo real a phersonol a bydd gan y Brifysgol honno y cyfansoddiad a'r pwerau a bydd yn ddarostyngedig i'r rheoliadau a bennir ac a gynhwysir yn hon Ein Siarter ac fe gyfeirir at y Brifysgol yn hon Ein Siarter fel 'y Brifysgol' ":

AC YN GYMAINT â bod Siarter 1893 wedi darparu y dylai merched fod yr un mor gymwys â dynion i'w derbyn i unrhyw un neu rai o Raddau neu swyddi'r Brifysgol:

AC YN GYMAINT ag y caniatawyd yn y blynyddoedd Mil naw cant a chwech, Mil naw cant ac ugain, Mil naw cant a thri deg un a Mil naw cant a chwe deg Siarteri Atodol i'r Brifysgol (y gelwir y Siarter Atodol olaf wedi hyn yn "Siarter Atodol 1960") ac y dirymwyd pob un ohonynt cyn hyn ac eithrio Siarter Atodol 1960:

AC YN GYMAINT â bod Prifysgol Cymru drwy Ddeiseb ostyngedig a gyflwynwyd i Ni yn Ein Cyngor wedi erfyn arnom Ni i ymfodloni'n raslon yn awr i ddirymu Siarter Atodol 1960 a chaniatáu iddynt Siarter Atodol bellach:

AC YN GYMAINT â'i bod yn Ein Bryd gytuno ag erfyniad y Ddeiseb honno:

GWYBYDDWCH YN AWR Ein Bod Ni, ar ôl cymryd y Ddeiseb honno i ystyriaeth, wedi ewyllysio ac ordeinio, yn rhinwedd Ein Rhagorfraint Frenhinol a'n graslonrwydd neilltuol, ein gwybodaeth sicr a'n hysgogiad ein hun drwy'r Presenolion hyn ar Ein Rhan Ni ac ar ran Ein Hetifeddion a'n Holynwyr, yn ewyllysio ac yn ordeinio heb ragfarnu'r rhan honno o Erthygl I Siarter 1893 a gyfansoddodd ac a sefydlodd y Brifysgol fel corfforaeth ag olyniaeth barhaol a Sêl Gyffredin, fod y cyfan o Siarter atodol 1960 yn cael ei ddirymu drwy hyn a bod y darpariaethau a gynhwysir yma wedi hyn yn cymryd eu lle fel y caiff unrhyw gyfeiriad mewn unrhyw Siarter Ymgorffori neu unrhyw weithred, ewyllys neu offeryn o unrhyw fath at Siarter 1893 neu unrhyw ddarpariaeth ynddi neu unrhyw un neu rai o'r Siarteri Atodol a enwyd uchod ei ddarllen a'i ddehongli fel cyfeiriad at ddarpariaeth neu ddarpariaethau neu'r hyn a fo'n cyfateb agosaf yn hon Ein Siarter Atodol a'r Statudau a'r Ordiniannau a'r Rheoliadau a wneir odani.

I YR ENW

Adwaenir Prifysgol Cymru o hyn ymlaen naill ai fel "PRIFYSGOL CYMRU" neu fel "THE UNIVERSITY OF WALES" (a elwir wedi hyn "y Brifysgol") a gall ddwyn ac amddiffyn achos llys a dal tir ac eiddo a gall ddwyn Pais Arfau yn y naill enw neu deitl neu'r llall neu'r ddau enw neu deitl a gall ddangos y naill neu'r llall neu'r ddau enw neu deitl ar ei Sêl Gyffredin.

II AELODAETH

Bydd y canlynol yn Aelodau o Brifysgol Cymru:
Canghellor y Brifysgol (a elwir wedi hyn "y Canghellor")
Dirprwy Ganghellor y Brifysgol (a elwir wedi hyn "y Dirprwy Ganghellor")
Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr y Brifysgol (a elwir wedi hyn "yr Is-Ganghellor")
Aelodau Cyngor y Brifysgol (a elwir wedi hyn "y Cyngor")
Aelodau Bwrdd Academaidd y Brifysgol (a elwir wedi hyn "y Bwrdd Academaidd")
Graddedigion (fel y'u diffinnir yn y Statudau) y Brifysgol
Aelodau staff (fel y'u diffinnir yn y Statudau) y Brifysgol
Pob person a chorfforaeth arall y datgenir gan yr Ordiniannau eu bod yn Aelodau.

III YR AWDURDODAU

Awdurdodau'r Brifysgol yw'r personau neu'r cyrff y cyflwynir iddynt y pwerau neu'r dyletswyddau i gyflawni swyddogaethau yn unol â hon Ein Siarter Atodol.

IV SEFYDLIADAU ACHREDEDIG A SEFYDLIADAU PERTHYNOL

A. Gall y Brifysgol gael Sefydliadau Achrededig.

B. Gall y Brifysgol gael Sefydliadau Perthynol.

C. Bydd Sefydliadau Achrededig a Sefydliadau Perthynol cyntaf y Brifysgol a'r meini prawf a'r gweithdrefnau ar gyfer derbyn sefydliad yn Sefydliad Achrededig neu'n Sefydliad Perthynol yn y dyfodol, neu ar gyfer colli neu newid ei statws fel Sefydliad Achrededig neu Sefydliad Perthynol, yn cael eu pennu gan Ordiniant.

V PWERAU'R BRIFYSGOL

Bydd gan y Brifysgol y pwerau canlynol:

(a) I bennu yn y Statudau, yr Ordiniannau neu'r Rheoliadau y gofynion ar gyfer matriciwleiddio.

(b) I bennu yn y Statudau, yr Ordiniannau neu'r Rheoliadau ddynodiad graddau, diplomâu, tystysgrifau ac anrhydeddau academaidd eraill y Brifysgol.

(c) I ganiatáu a chyflwyno o dan amodau a ragnodwyd yn y Statudau, neu'r Ordiniannau neu'r Rheoliadau, Raddau, Diplomâu, Tystysgrifau ac anrhydeddau academaidd eraill y Brifysgol i bersonau a fydd wedi dilyn a chwblhau'n llwyddiannus gynllun astudio neu ymchwil a bennwyd gan Statud, Ordiniant neu Reoliad.

(d) I dderbyn graddedigion Prifysgolion eraill i Raddau o safle cyfartal neu debyg yn y Brifysgol o dan yr amodau a bennir gan Statud, Ordiniant neu Reoliad.

(e) O dan amodau sydd i'w rhagnodi yn y Statudau neu'r Ordiniannau, cyflwyno i sefydliadau eraill statws Sefydliad Achrededig neu Sefydliad Perthynol y Brifysgol.

(f) O dan amodau sydd i'w rhagnodi yn y Statudau neu'r Ordiniannau

(i) caniatáu i Sefydliadau Achrededig a Sefydliadau Perthynol, ac i Gyrff Cysylltiol eraill yr hawl i sefydlu a gweithredu cynlluniau astudio a rhaglenni ymchwil sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol a chofrestru myfyrwyr ar y cyfryw gynlluniau a rhaglenni;

(ii) pennu trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau mewn perthynas â'r cynlluniau astudio a'r rhaglenni ymchwil hynny sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol a sefydlwyd yn unol ag Erthygl V(f)(i);

(iii) caniatáu i unrhyw Sefydliad Achrededig a Sefydliad Perthynol a fydd wedi ennill ei bwerau dyfarnu graddau a ddysgir ei hun, cyfrifoldeb dirprwyedig am faterion yn ymwneud ag ansawdd a safonau cynlluniau astudio sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol lle bydd cynlluniau astudio o'r fath yn cael eu gweithredu gan y cyfryw sefydliad neu gan unrhyw Sefydliad Achrededig neu Sefydliad Perthynol arall;

(iv) caniatáu i unrhyw Sefydliad Achrededig a Sefydliad Perthynol a fydd wedi ennill ei bwerau dyfarnu graddau ymchwil ei hun, cyfrifoldeb dirprwyedig am faterion yn ymwneud ag ansawdd a safonau rhaglenni ymchwil sy'n arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol lle bydd rhaglenni ymchwil o'r fath yn cael eu gweithredu gan y cyfryw sefydliad neu gan unrhyw Sefydliad Achrededig neu Sefydliad Perthynol arall.

(g) O dro i dro, adolygu unrhyw benderfyniadau a fydd wedi'u gwneud gan y Brifysgol mewn perthynas â darpariaethau Erthygl V(f), ac y barna'r Brifysgol eu bod yn gymwys, i

(i) gadarnhau'r hawliau a'r cyfrifoldebau a ganiatawyd o dan Erthygl V(f)(i), Erthygl V(f)(iii) ac Erthygl V(f)(iv);

(ii) pennu'r amodau ar gyfer parhad yr hawliau a'r cyfrifoldebau a ganiatawyd o dan Erthygl V(f)(i), Erthygl V(f)(iii) ac Erthygl V(f)(iv); neu

(iii) tynnu'n ôl yr hawliau a'r cyfrifoldebau a ganiatawyd o dan Erthygl V(f)(i), Erthygl V(f)(iii) ac Erthygl V(f)(iv).

(h) I gyflwyno Graddau er Anrhydedd ac anrhydeddau eraill ar yr amod y caiff pob Gradd er Anrhydedd ac Anrhydedd a gyflwynir felly ei chyflwyno a'i dal yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau a wneir neu a fo'n cael eu gwneud mewn perthynas â hynny gan Statudau, Ordiniannau neu Reoliadau y Brifysgol.

(i) Am yr hyn a farno'r Brifysgol ei fod yn achos da, i amddifadu personau o unrhyw Raddau neu anrhydeddau eraill a gyflwynwyd iddynt gan y Brifysgol ac i ddiddymu unrhyw Ddiplomâu neu Dystysgrifau a gyflwynwyd iddynt gan y Brifysgol ac, os gwêl y Brifysgol yn dda, i adfer i unrhyw berson y Radd neu anrhydedd arall y bydd wedi ei hamddifadu ohoni neu wedi ei amddifadu ohono neu i adfer unrhyw Ddiploma neu Dystysgrif a fydd wedi ei diddymu fel hynny.

(j) I ddarparu ar gyfer gwneud cyrff a sefydliadau eraill yn gysylltiol (ac eithrio drwy fod yn Sefydliadau Achrededig neu Berthynol) ar y telerau a'r amodau ac yn ddarostyngedig i'r rheoliadau hynny a bennir o bryd i'w gilydd yn y Statudau neu'r Ordiniannau.

(k) I gydweithio gyda chyrff dyfarnu eraill ac awdurdodau eraill i gynnal arholiadau ac at unrhyw ddibenion eraill y bo'r Brifysgol yn penderfynu arnynt o bryd i'w gilydd.

(l) I ymwneud â llywodraeth a gweinyddiaeth Sefydliadau eraill hynny yn y ffordd y bo wedi ei phennu yn awr neu ar ôl hyn gan offerynnau cyfansoddiadol y Sefydliadau eraill hynny ond gan sicrhau yr ymarferir y pwerau a roir felly i'r Brifysgol yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y bo'r Statudau neu'r Ordiniannau yn eu pennu.

(m) O dan amodau sydd i'w pennu yn y Statudau neu'r Ordiniannau sefydlu Cadeiriau Athro, Darllenyddiaethau ac unrhyw swyddi academaidd eraill y Brifysgol.

(n) O dan amodau sydd i'w pennu yn y Statudau neu'r Ordiniannau gyflwyno i unrhyw berson deitl Athro neu Ddarllenydd neu unrhyw un o deitlau eraill (ac i dynnu'n ôl unrhyw deitl o'r fath).

(o) I sefydlu'r swyddi gweinyddol y bo eu hangen ar y Brifysgol ac i ddarparu ar gyfer penodi personau iddynt.

(p) I sefydlu a dyfarnu Cymrodoriaethau, Efrydyddiaethau, Ysgoloriaethau, Arddangostaloedd, Addysgedau a Gwobrau'r Brifysgol a chynorthwyon eraill i astudio ac ymchwilio.

(q) I wneud darpariaeth ar gyfer gwasanaethau ymchwilio a chynghori ac, er mwyn hyrwyddo'r nodau hynny, i wneud y trefniadau â sefydliadau eraill neu â chyrff cyhoeddus y bo'r Brifysgol yn eu hystyried yn ddymunol.

(r) I ddarparu ar gyfer argraffu a chyhoeddi gwaith ymchwil a gweithiau eraill.

(s) I hawlio a chael ffioedd.

(t) I weithredu yn ymddiriedolwr neu reolwr unrhyw eiddo, cymynrodd, gwaddoliad, becwêdd neu rodd at ddibenion addysg neu ymchwil neu er hyrwyddo gwaith a lles y Brifysgol fel arall ac i fuddsoddi unrhyw arian sy'n cynrychioli'r rheiny yn unol â darpariaethau'r Statudau.

(u) I ddwyn ac arddangos y bais arfau a ganiatawyd i'r Brifysgol gan Ein Coleg Herodrol ac, os gwêl y Brifysgol yn dda, i sicrhau'r diwygiadau a'r amrywiadau ynddi a farno'r Brifysgol yn ddymunol.

(v) Os gwêl y Brifysgol fod angen gwneud hynny, i benodi person neu bersonau i ymweld â'r adeiladau, yr offer a'r cyfleusterau cyffredinol o ran dysgu ac ymchwilio mewn unrhyw gorff neu sefydliad sydd ar hyn o bryd neu a allai ddarparu cynlluniau astudio neu raglenni ymchwil yn arwain at ddyfarniadau'r Brifysgol.

(w) I gynnal, rheoli, trafod, gwaredu ac, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau hon Ein Siarter Atodol a'r Statudau, i fuddsoddi holl eiddo, arian, asedion a hawliau'r Brifysgol ym mha bynnag stociau, cronfeydd, cyfrannau, sicrydau neu fuddsoddiadau (heblaw tir) a lle bynnag y bônt (p'un a awdurdodir hynny gan y gyfraith gyffredinol ar gyfer buddsoddi arian ymddiried neu nad awdurdodir mohono) fel y gwêl y Brifysgol yn dda neu mewn prynu tir yn Ein Teyrnas Unedig boed drwy fuddsoddi neu er mwyn ei feddiannu ac yn ddarostyngedig neu heb fod yn ddarostyngedig i brydlesoedd neu denantiaethau ac i amrywio unrhyw fuddsoddiadau gan gynnwys sylweddoli'r buddsoddiadau presennol ac ail-fuddsoddi derbyniadau net y sylweddoliad, ar yr amod yn achos arian a ddelir gan y Brifysgol fel ymddiriedolwr y caiff y pwerau a gyflwynir drwy hyn eu hymarfer yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r gyfraith ynglŷn â buddsoddi gan ymddiriedolwyr.

(x) I roi gwarantebau i gymdeithasau adeiladu, cymdeithasau cyfeillgar, awdurdodau lleol a chwmnïau yswiriant boed hynny'n unol â threfniadau parhaol neu beidio.

(y) I gymryd y camau hynny a fernir yn fuddiol o bryd i'w gilydd er sicrhau cyfraniadau i gronfeydd y Brifysgol ac i godi arian mewn unrhyw ddull arall a farno'r Brifysgol yn addas.

(z) I wneud yr holl weithredoedd a phethau eraill (gan gynnwys hyrwyddo Mesur neu Fesurau Seneddol os bernir bod angen hynny), boed yn gysylltiedig â'r pwerau uchod neu beidio, a fo'n ofynnol er mwyn hyrwyddo gwaith y Brifysgol.

VI YR YMWELYDD

Byddwn Ni, Ein Hetifeddion a'n Holynwyr yn Ymwelydd ac Ymwelwyr y Brifysgol, ac yn parhau i fod felly, drwy Arglwydd Lywydd Ein Cyngor ar y pryd a chan ymarfer Awdurdod yr Ymwelydd bydd gennym Ni, Ein Hetifeddion a'n Holynwyr yr hawl o bryd i'w gilydd ac yn y dull y credwn Ni neu y credant Hwy yn dda i gyfarwyddo archwiliad o'r Brifysgol a'i hadeiladau a'i hoffer cyffredinol a hefyd ymchwiliad i waith y Brifysgol.

VII Y CANGHELLOR

Bydd Canghellor i'r Brifysgol, a bydd yn Bennaeth y Brifysgol.

VIII Y DIRPRWY GANGHELLOR

Bydd Dirprwy Ganghellor a fydd yn ymarfer ac yn cyflawni holl swyddogaethau'r Canghellor os bydd y swydd honno'n wag, ac yn cyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Canghellor y bo'r Canghellor yn eu dirprwyo i'r Dirprwy Ganghellor.

IX YR IS-GANGHELLOR A PHRIF WEITHREDWR

Bydd Is-Ganghellor a Phrif Weithredwr i'r Brifysgol a fydd yn Brif Swyddog Academaidd a Gweithredol y Brifysgol a bydd yn llywyddu cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd. Bydd gan yr Is-Ganghellor y pŵer i dderbyn personau i Raddau'r Brifysgol yn unol â hon Ein Siarter Atodol a'r Statudau.

X DILEWYD

XI DILEWYD

XII Y SWYDDI ERAILL

Yn ogystal â'r swyddi a gyfansoddwyd uchod bydd y swyddi eraill hynny yn y Brifysgol ag a bennir gan y Statudau.

XIII DILEWYD

XIV Y CYNGOR

Bydd Cyngor i'r Brifysgol (a elwir wedi hyn "y Cyngor") a fydd, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau hon Ein Siarter Atodol a darpariaethau'r Statudau, yn gorff llywodraethu goruchaf ac awdurdod gweinyddol y Brifysgol, ac ef a gaiff gadw a defnyddio'r Sêl Gyffredin. Bydd yn gyfrifol am reoli a gweinyddu cronfeydd, refeniw, eiddo a buddsoddiadau'r Brifysgol a bydd ganddo reolaeth gyffredinol dros weithredu busnes y Brifysgol a bydd ganddo bob pŵer**,** dyletswydd a swyddogaeth arall o'r fath ag a roir iddo gan y Statudau.

XV Y BWRDD ACADEMAIDD

Bydd Bwrdd Academaidd i'r Brifysgol (a elwir wedi hyn "y Bwrdd Academaidd") a fydd, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau hon Ein Siarter Atodol a'r Statudau yn gyfrifol am bob mater academaidd a ddaw o fewn maes sylw'r Brifysgol a bydd ganddo bob pŵer**,** dyletswydd a swyddogaeth arall o'r fath ag a roir iddo gan y Statudau.

XVI DILEWYD

XVII CYRFF Y BRIFYSGOL

Fe sefydlir drwy Ordiniant, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau hon Ein Siarter Atodol a'r Statudau, y cyfryw gyrff Prifysgol, ei myfyrwyr neu ei Graddedigion ag y bo'r Brifysgol yn ystyried o bryd i'w gilydd eu bod yn ddymunol.

XVIII DILEWYD

XIX Y STATUDAU

1. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau hon Ein Siarter Atodol, gall Statudau bennu neu reoli fel y bo'r achos:
   (a) Statws, penodiad a pharhad mewn swydd, a phwerau a dyletswyddau y Canghellor, y Dirprwy Ganghellor a'r Is-Ganghellor.
   (b) Cyfansoddiad, pwerau, dyletswyddau a swyddogaethau'r Cyngor a'r Bwrdd Academaidd.
   (c) Y materion eraill hynny y bo'r Brifysgol yn penderfynu arnynt, mewn perthynas â llywodraethu'r Brifysgol, neu fel arall i hyrwyddo nodau hon Ein Siarter Atodol.

2. Y Statudau a nodir yn Atodlen hon Ein Siarter Atodol fydd Statudau'r Brifysgol a dônt i rym ar y dyddiad isod a pharhau mewn grym tan yr ychwanegir atynt, eu diwygio neu eu diddymu yn y modd a bennir wedi hyn.

3. (a) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Erthygl V uchod gall y Cyngor, drwy Benderfyniad, wneud Statudau ar gyfer y Brifysgol a all ychwanegu at y Statudau sydd mewn grym ar y pryd, eu diwygio neu eu dirymu, ar yr amod na wneir unrhyw Statudau o'r fath tan i'r Bwrdd Academaidd fod wedi cael cyfle i ystyried y Statudau arfaethedig a chyflwyno adroddiad arnynt i'r Cyngor ac na chaiff unrhyw Statudau o'r fath ddod i rym tan eu cymeradwyo gan Arglwyddi Ein Hanrydeddusaf Gyfrin Gyngor, a bydd Tystysgrif dan law Clerc Ein dywededig Gyfrin Gyngor yn dystiolaeth derfynol o hynny.

(b) Bydd gan y Bwrdd Academaidd y pŵer i gynnig i'r Cyngor Statudau sydd i'w gwneud gan y Cyngor.

XX YR ORDINIANNAU

1. Gall y Statudau gyfarwyddo bod unrhyw rai o'r materion a bennir neu a reolir gan Statud fel yr awdurdodir neu y cyfarwyddir yn hon Ein Siarter Atodol yn cael eu pennu neu eu rheoli ymhellach drwy Ordiniant, ar yr amod na fydd unrhyw bennu neu reoli pellach felly yn anghymarus â darpariaethau hon Ein Siarter Atodol neu'r Statudau.

2. Drwy Benderfyniad y Cyngor y gwneir Ordiniannau ar yr amod bod Ordiniannau sydd yn effeithio yn uniongyrchol ar faterion academaidd wedi cael eu hystyried yn gyntaf gan y Bwrdd Academaidd.

3. Gall Ordiniannau ychwanegu at Ordiniannau a fydd o bryd i'w gilydd mewn grym, eu diwygio neu eu diddymu.

XXI Y RHEOLIADAU

1. Gall unrhyw un o'r materion a bennir neu a reolir drwy Ordiniant fel yr awdurdodir neu y cyfarwyddir yn hon Ein Siarter Atodol neu yn y Statudau i gael ei bennu neu ei reoli ymhellach drwy Reoliad ar yr amod na fydd unrhyw bennu neu reoli pellach o'r fath yn anghymarus â darpariaethau hon Ein Siarter Atodol, y Statudau neu'r Ordiniannau.

2. Drwy Benderfyniad y Bwrdd Academaidd y gwneir Rheoliadau.

3. Gall Rheoliadau ychwanegu at Reoliadau a fydd o bryd i'w gilydd mewn grym, eu diwygio neu eu diddymu.

XXII Y RHEOLAU SEFYDLOG

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau hon ein Siarter Atodol a darpariaethau'r Statudau, yr Ordiniannau a'r Rheoliadau, bydd gan y Cyngor, y Bwrdd Academaidd a chyrff eraill y Brifysgol bob un y pŵer i wneud Rheolau Sefydlog i lywodraethu eu dulliau gweithredu eu hunain ynghyd â'r pŵer o bryd i'w gilydd i ddiwygio unrhyw Reol Sefydlog felly neu ei diddymu.

XXIII DILEWYD

XXIV DILEWYD

XXV DOSBARTHU EIDDO

Ni chaiff y Brifysgol roi unrhyw ddifidend, rhodd, rhaniad na bonws mewn arian i na rhwng unrhyw rai o'i Haelodau ond ar ffurf gwobr, taledigaeth neu grant arbennig.

XXVI NEWIDIADAU I'R SIARTER

1. Gellir ychwanegu at unrhyw un o ddarpariaethau hon Ein Siarter Atodol, ei hamrywio neu ei diddymu drwy Benderfyniad Arbennig gan y Cyngor ond fel na bo'r ychwanegu, yr amrywio neu'r diddymu hwnnw'n dod i rym hyd oni fydd wedi ei gymeradwyo gennym Ni, Ein Hetifeddion a'n Holynwyr yn y Cyngor.

2. Yn ddarostyngedig i'r Statudau rhaid rhoi rhybudd digonol, fel y'i diffinnir yn yr Ordiniannau, i'r Cyngor o unrhyw fwriad i gynnig Penderfyniad i ddiddymu neu amrywio neu ychwanegu at hon ein Siarter Atodol gan roi manylion y diddymu, yr amrywio neu'r ychwanegu a arfaethir.

3. (a) Os paratoir fersiwn o hon Ein Siarter Atodol a'r Statudau sydd mewn grym ar y pryd yn yr iaith Gymraeg ac os mabwysiedir y fersiwn hwnnw drwy Benderfyniad Arbennig a'i gymeradwyo gennym Ni, Ein Hetifeddion a'n Holynwyr yn y Cyngor, fe fernir bod fersiwn Cymraeg hon Ein Siarter Atodol wedi ei ymgorffori yn hon Ein Siarter Atodol ac yn rhan ohoni ac fe fernir bod fersiwn Cymraeg y Statudau wedi ei ymgorffori yn y Statudau ac yn rhan ohonynt a bod iddynt yn y naill achos a'r llall yr un grym a dilysrwydd â'r fersiynau Saesneg ohonynt.

   (b) Caiff unrhyw fersiwn Cymraeg o'r Ordiniannau a'r Rheoliadau a fabwysiedir yn yr un ffordd ag y mae'n ofynnol mabwysiadu amrywiadau iddynt eu trin fel Ordiniannau neu Reoliadau fel y bo'r achos a bydd iddynt yr un grym a dilysrwydd â'r fersiynau Saesneg ohonynt.

   (c) Os oes fersiynau Cymraeg yn bodoli ac os cawsant eu cymeradwyo, rhaid i unrhyw ddiwygio dileu amrywio neu ychwanegu at hon Ein Siarter Atodol neu'r Statudau neu'r Ordiniannau neu'r Rheoliadau gael eu gwneud yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg.

XXVII PENDERFYNIADAU

(a) At ddiben hon Ein Siarter Atodol mae Penderfyniad yn golygu Penderfyniad gan yr awdurdod priodol ac wedi ei gymeradwyo gan fwyafrif syml o'r aelodau o'r awdurdod sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

(b) At ddiben hon Ein Siarter Atodol mae Penderfyniad Arbennig yn golygu Penderfyniad gan yr awdurdod priodol ac wedi ei gymeradwyo gan fwyafrif heb fod yn llai na dau o bob tri o'r aelodau o'r awdurdod sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

XXVIII Y RHEOLIADAU A'R RHEOLAU SEFYDLOG SY'N BODOLI

Bydd yr holl Reoliadau, Rheolau Sefydlog a Phenderfyniadau presennol gan y Cyngor, y Bwrdd Academaidd a chyrff eraill y Brifysgol, ac eithrio lle y bônt yn anghyson â darpariaethau hon Ein Siarter Atodol neu â'r Statudau yn parhau mewn grym ac effaith lawn oni chânt eu dirymu neu eu hamrywio gan yr awdurdod priodol ar gyfer hynny, a than y gwneir hynny, a bernir eu bod wedi eu gwneud yn unol â hon Ein Siarter Atodol a'r Statudau, ac i'r graddau y bo'n addas i'r hyn sydd ynddynt, bernir fod iddynt rym Ordiniannau.

A'n Hewyllys a'n Pleser Brenhinol Ni yw bod hon Ein Siarter Atodol i'w dehongli bob amser yn haelionus ac ym mhob achos yn y modd mwyaf ffafriol i'r Brifysgol.

YN DYSTIOLAETH i hyn parasom wneud yn Amlwg Ein Llythyrau hyn.

TYST Ni Ein Hunain yn Westminster yr unfed dydd ar ddeg o Ragfyr yn unfed flwyddyn ar bymtheg Ein Teyrnasiad.

TRWY WARANT O DAN LOFNOD Y FRENHINES

Charter of the University

ELIZABETH THE SECOND by the Grace of God of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland and of Our other Realms and Territories Queen, Head of the Commonwealth, Defender of the Faith:

TO ALL TO WHOM THESE PRESENTS SHALL COME, GREETING!

WHEREAS Her Majesty Queen Victoria did on the thirtieth day of November in the year of our Lord One thousand eight hundred and ninety-three, grant a Charter (hereinafter referred to as "the Charter of 1893") constituting and founding a University in and for Wales, the first paragraph of the first Article of which Charter is as follows:

"I. FOUNDATION OF THE UNIVERSITY OF WALES

There shall be and there is hereby constituted and founded a University in and for Wales and the County of Monmouth (which County is to be deemed included in 'Wales' wherever Wales may hereinafter occur in this Our Charter) with the name of the University of Wales by which name the Chancellor and other members of the University of Wales for the time being shall be and are hereby constituted one body corporate with perpetual succession and a Common Seal and with power without any further licence in mortmain to take, purchase and hold and also to sell, grant, exchange, demise or otherwise dispose of real and personal property which University shall have the constitution and powers and be subject to the regulations in this Our Charter prescribed and contained and which University is in this Our Charter referred to as 'the University' ":

AND WHEREAS the Charter of 1893 provided that women should be eligible equally with men for admittance to any Degree or office of the University:

AND WHEREAS in the years One thousand nine hundred and six, One thousand nine hundred and twenty, One thousand nine hundred and thirty-one and One thousand nine hundred and sixty Supplemental Charters were granted to the University (which last named Supplemental Charter is hereinafter referred to as "the Supplemental Charter of 1960") and each of which have heretofore been revoked except the Supplemental Charter of 1960:

AND WHEREAS by an humble Petition presented unto Us in Our Council the University of Wales has prayed that We should be graciously pleased now to grant them a further Supplemental Charter:

AND WHEREAS We are minded to accede to the prayer of such Petition:

NOW KNOW YE that We, having taken into consideration the said Petition have willed and ordained and do, by virtue of Our Prerogative Royal and of Our especial grace, certain knowledge and mere motion by these Presents for Us, Our Heirs and Successors will and ordain that without prejudice to that part of Article I of the Charter of 1893 which constituted and founded the University as a body corporate with perpetual succession and a Common Seal, the whole of the Supplemental Charter of 1960 shall be and is hereby revoked and the provisions hereinafter contained shall be substituted therefor and so that any reference in any Charter of Incorporation or any deed, will or instrument of any kind to or to any provision of the Charter of 1893 or any of the before recited Supplemental Charters shall be read and construed as a reference to or to the most nearly corresponding provision or provisions of this Our Supplemental Charter and the Statutes, Ordinances and Regulations made hereunder.

I THE NAME

The University of Wales shall henceforward be known either as "PRIFYSGOL CYMRU" or as "THE UNIVERSITY OF WALES" (hereinafter called "the University") and may sue and be sued and may hold land and property and may bear Arms in either or both of such names or styles and may exhibit either or both of such names or styles upon its Common Seal.

II MEMBERSHIP

The following shall be Members of the University of Wales:

The Chancellor of the University (hereinafter called "the Chancellor")

The Pro-Chancellor of the University (hereinafter called "the Pro-Chancellor")

The Vice-Chancellor & Chief Executive of the University (hereinafter called "the Vice-Chancellor")

The members of the Council of the University (hereinafter called "the Council")

The members of the Academic Board of the University (hereinafter called "the Academic Board")

The Graduates (as defined in the Statutes) of the University

The members of the staff (as defined in the Statutes) of the University

All other persons and corporations who shall be declared by the Ordinances to be Members.

III THE AUTHORITIES

The authorities of the University are the persons or bodies on whom powers or duties to perform functions are conferred in accordance with this Our Supplemental Charter.

IV ACCREDITED INSTITUTIONS AND AFFILIATED INSTITUTIONS

A. There may be Accredited Institutions of the University.

B. There may be Affiliated Institutions of the University.

C. The initial Accredited Institutions and Affiliated Institutions of the University and the conditions and procedures under which an institution shall in future become or cease to be an Accredited Institution or an Affiliated Institution shall be prescribed by Ordinance.

V THE POWERS OF THE UNIVERSITY

The University shall have and enjoy the following powers:

(a) To prescribe in the Statutes, Ordinances or Regulations the requirements for matriculation.

(b) To prescribe in the Statutes, Ordinances or Regulations the designations of the degrees, diplomas, certificates and other academic distinctions of the University.

(c) To confer and grant under conditions laid down in the Statutes, or Ordinances or Regulations, Degrees, Diplomas, Certificates and other academic distinctions of the University upon and to persons who shall have pursued and successfully completed a scheme of study or research prescribed by Statute, Ordinance or Regulation.

(d) To admit graduates of other Universities to Degrees of equal or similar rank in the University under conditions laid down by Statute, Ordinance or Regulation.

(e) Under conditions to be prescribed in the Statutes or Ordinances to confer upon other institutions the status of Accredited Institution or Affiliated Institution of the University.

(f) Under conditions to be prescribed in the Statutes or Ordinances

(i) to grant to Accredited Institutions and Affiliated Institutions, and to other Associated Bodies the right to establish and operate schemes of study and programmes of research leading to awards of the University and to enrol students onto such schemes and programmes;

(ii) to determine arrangements for the assurance of quality and standards in respect of those schemes of study and programmes of research leading to awards of the University established in accordance with Article V(f)(i);

(iii) to grant, to any Accredited Institution and Affiliated Institution that shall have been granted its own taught degree awarding powers, delegated responsibility for matters relating to the quality and standards of schemes of study leading to awards of the University where such schemes of study shall be operated by the said institution or by any other Accredited Institution or Affiliated Institution;

(iv) to grant, to any Accredited Institution and Affiliated Institution that shall have been granted its own research degree awarding powers, delegated responsibility for matters relating to the quality and standards of programmes of research leading to awards of the University where such programmes of research shall be operated by the said institution or by any other Accredited Institution or Affiliated Institution.

(g) From time to time, to review such decisions as may have been taken by the University further to the provisions of Article V(f) and, as the University may think fit, to

(i) confirm the rights and responsibilities granted under Article V(f)(i), Article V(f)(iii) and Article V(f)(iv);

(ii) determine conditions for the continuance of the rights and responsibilities granted under Article V(f)(i), Article V(f)(iii) and Article V(f)(iv); or

(iii) withdraw the rights and responsibilities granted under Article V(f)(i), Article V(f)(iii) and Article V(f)(iv).

(h) To confer Honorary Degrees and other distinctions provided that all Honorary Degrees and Distinctions so conferred shall be conferred and held subject to any provisions which are or may be made in reference thereto by the Statutes, Ordinances or Regulations of the University.

(i) On what the University shall deem to be good cause to deprive persons of any Degrees or other distinctions conferred upon them by the University and to revoke any Diplomas or Certificates granted to them by the University and, if the University shall think fit, to restore to any person the Degree or other distinction of which he or she shall have been deprived or to reinstate any Diploma or Certificate which shall have been so revoked.

(j) To provide for the association (other than by way of being Accredited or Affiliated Institutions) of other bodies and institutions upon such terms and conditions and subject to such regulations as may from time to time be determined in the Statutes or the Ordinances.

(k) To co-operate with other awarding bodies and other authorities for the conduct of examinations and for such other purposes as the University may from time to time determine.

(l) To join in the government and administration of other Institutions in such manner as may now or hereafter be prescribed by the constitutional instruments of such other Institutions but so that powers so conferred upon the University shall be exercised subject to any conditions which may be prescribed by the Statutes or the Ordinances.

(m) Under conditions to be prescribed in the Statutes or Ordinances to establish Professorships, Readerships and other academic offices of the University.

(n) Under conditions to be prescribed in the Statutes or the Ordinances to confer upon any person the title of Professor or Reader or any other title of the University (and to withdraw any such title).

(o) To institute such administrative offices and posts of the University as may be required and to provide for the appointment of persons thereto.

(p) To institute and award University Fellowships, Studentships, Scholarships, Exhibitions, Bursaries and Prizes and other aids to study and research.

(q) To make provision for research and advisory services and in furtherance of these objects to enter into such arrangements with other institutions or with public bodies as the University may think desirable.

(r) To provide for the printing and publication of research and other works.

(s) To demand and receive fees.

(t) To act as trustee or manager of any property, legacy, endowment, bequest or gift for purposes of education or of research or otherwise in furtherance of the work and welfare of the University and to invest any funds representing the same in accordance with the provisions of the Statutes.

(u) To bear and display the armorial bearings granted to the University by Our College of Arms and, if the University shall think fit, to obtain such amendments and variations thereto as the University may deem desirable.

(v) If the University shall deem it necessary, to appoint a person or persons to visit and report upon the buildings, equipment and general facilities in teaching and research at any body or institution which now provides or which may provide schemes of study or programmes of research leading to awards of the University.

(w) To maintain, manage, deal with, dispose of and subject to the provisions of this Our Supplemental Charter and of the Statutes to invest all the property, money, assets and rights of the University in such stocks, funds, shares, securities or investments (other than land) whatsoever and wheresoever situate (whether authorised by the general law for the investment of trust moneys or not so authorised) as the University shall think fit or in the purchase of land in Our United Kingdom whether by way of investment or for occupation and subject or not subject to leases or tenancies and to vary any investments including the realization of existing investments and to re-invest the net proceeds of the realization, provided that in the case of moneys held by the University as trustee the powers hereby conferred shall be exercised subject to the provisions of the law relating to investment by trustees.

(x) To give guarantees to building societies, friendly societies, local authorities and insurance companies whether in pursuance of continuing arrangements or not.

(y) To take such steps as may from time to time be deemed expedient for the purpose of procuring contributions to the funds of the University and to raise money in such other manner as the University may deem fit.

(z) To do all such other acts and things (including if thought necessary the promotion of a Bill or Bills in Parliament) whether incidental to the powers aforesaid or not as may be requisite in order to further the work of the University.

VI THE VISITOR

We, Our Heirs and Successors, shall be and remain the Visitor and Visitors of the University through the Lord President of Our Council for the time being and in exercise of the Visitorial Authority We, Our Heirs and Successors shall have the right from time to time and in such manner as We or They think fit to direct an inspection of the University and its buildings and general equipment and also an enquiry into the work of the University.

VII THE CHANCELLOR

There shall be a Chancellor of the University who shall be the Head of the University.

VIII THE PRO-CHANCELLOR

There shall be a Pro-Chancellor who shall exercise and perform all the functions of the Chancellor during a vacancy in that office and at other times shall exercise and perform such of the functions of the Chancellor as the Chancellor may delegate to the Pro-Chancellor.

IX THE VICE-CHANCELLOR AND CHIEF EXECUTIVE

There shall be a Vice-Chancellor and Chief Executive of the University who shall be the Chief Academic and Executive Officer of the University and shall preside over the meetings of the Academic Board. The Vice-Chancellor shall have power to admit persons to Degrees of the University in accordance with this Our Supplemental Charter and the Statutes.

X DELETED

XI DELETED

XII THE OTHER OFFICES

In addition to the offices hereinbefore constituted there shall be such other offices of the University as may be prescribed by the Statutes.

XIII DELETED

XIV THE COUNCIL

There shall be a Council of the University (hereinafter called "the Council") which subject to the provisions of this Our Supplemental Charter and of the Statutes shall be the supreme governing body and the administrative authority of the University and shall have the custody and use of the Common Seal and shall be responsible for the management and administration of the funds, revenue, property and investments of the University and shall have general control over the conduct of the affairs of the University and shall have all such other powers**,** duties and functions as may be conferred upon it by the Statutes.

XV THE ACADEMIC BOARD

There shall be an Academic Board of the University (hereinafter called "the Academic Board") which subject to the provisions of this Our Supplemental Charter and the Statutes shall be responsible for all academic matters which fall within the purview of the University and shall have all such other powers**,** duties and functions as may be conferred upon it by the Statutes.

XVI DELETED

XVII UNIVERSITY ORGANISATIONS

There shall be established by Ordinance, subject to the provisions of this Our Supplemental Charter and of the Statutes, such organisations of the University, its students or its Graduates as the University may from time to time consider desirable.

XVIII DELETED

XIX THE STATUTES

1. Subject to the provisions of this Our Supplemental Charter, Statutes may prescribe or regulate as the case may be:
   (a) The status, appointment and continuance in office and the powers and duties of the Chancellor, the Pro-Chancellor and the Vice-Chancellor.
   (b) The constitution, powers, duties and functions of the Council and the Academic Board.
   (c) Such other matters as the University may determine, with respect to the governing of the University or otherwise for the promotion of the objects of this Our Supplemental Charter.

2. The Statutes set out in the Schedule to this Our Supplemental Charter shall be the Statutes of the University and shall come into force at the date hereof and shall remain in force until they shall have been added to, amended or repealed in manner hereinafter provided.

3. (a) Subject to the provisions of Article V hereof the Council may by Resolution make Statutes for the University which may add to, amend or repeal the Statutes for the time being in force, provided that no such Statutes shall be made until the Academic Board shall have had an opportunity of considering the proposed Statutes and reporting thereon to the Council and that no such Statutes shall have effect until approved by the Lords of Our Most Honourable Privy Council, of which approval a Certificate under the hand of the Clerk of Our said Privy Council shall be conclusive evidence.

(b) The Academic Board shall have power to propose to the Council Statutes to be made by the Council.

XX THE ORDINANCES

1. The Statutes may direct that any of the matters prescribed or regulated by Statute as authorised or directed in this Our Supplemental Charter shall be further prescribed or regulated by Ordinance, provided that any such further prescription or regulation shall not be repugnant to the provisions of this Our Supplemental Charter or the Statutes.

2. Ordinances shall be made by Resolution of Council provided that Ordinances directly affecting academic matters shall first have been considered by the Academic Board.

3. Ordinances may add to, amend or repeal Ordinances from time to time in force.

XXI THE REGULATIONS

1. Any of the matters prescribed or regulated by Ordinance as authorised or directed in this Our Supplemental Charter or in the Statutes may be further prescribed or regulated by Regulation provided that any such further prescription or Regulation shall not be repugnant to the provisions of this Our Supplemental Charter, the Statutes or the Ordinances.

2. Regulations shall be made by Resolution of the Academic Board.

3. Regulations may add to, amend or repeal Regulations from time to time in force.

XXII THE STANDING ORDERS

Subject to the provisions of this Our Supplemental Charter and of the Statutes, the Ordinances and the Regulations, the Council, the Academic Board and other organisations of the University shall each have power to make Standing Orders to govern their own respective procedures with power from time to time to amend or repeal any such Standing Orders.

XXIII DELETED

XXIV DELETED

XXV DISTRIBUTIONS

The University shall not make any dividend, gift, division or bonus in money unto or between any of its Members except by way of prize, reward or special grant.

XXVI ALTERATIONS TO CHARTER

1. Any of the provisions of this Our Supplemental Charter may be repealed, varied or added to by Special Resolution of the Council but so that no such repeal, variation or addition shall take effect until it shall have been approved by Us, Our Heirs and Successors in Council.

2. Subject to the Statutes sufficient notice as defined in the Ordinances shall be given to the Council of any intention to propose a Resolution for any repeal of or variation or addition to this Our Supplemental Charter with particulars of the repeal, variation or addition proposed.

3. (a) If a version of this Our Supplemental Charter and the Statutes then in force be prepared in the Welsh language and if such version be adopted by Special Resolution and approved by Us, Our Heirs or Successors in Council then the Welsh language version of this Our Supplemental Charter shall be deemed to be incorporated into and to form part of this Our Supplemental Charter and the Welsh language version of the Statutes shall be deemed to be incorporated into and to form part of the Statutes and in each case to be of equal force and validity to the English language versions thereof.

   (b) Any Welsh language version of the Ordinances and Regulations adopted in the same manner as variations thereto are required to be adopted shall be treated as Ordinances or Regulations as the case may require and of equal force and validity to the English language versions thereof.

   (c) Where approved Welsh language versions exist, any amendment repeal variation or addition to this Our Supplemental Charter or the Statutes or the Ordinances or the Regulations shall be made in both English and Welsh versions.

XXVII RESOLUTIONS

(a) For the purpose of this Our Supplemental Charter a Resolution means a Resolution of the authority concerned passed by a simple majority of the members of the authority present and voting.

(b) For the purpose of this Our Supplemental Charter a Special Resolution means a Resolution of the authority concerned passed by a majority of not less than two-thirds of the members of the authority present and voting.

XXVIII EXISTING REGULATIONS AND STANDING ORDERS

Unless and until repealed or varied by the proper authority in that behalf all existing Regulations, Standing Orders and Resolutions of the Council, the Academic Board and other University organisations shall except where inconsistent with the provisions of this Our Supplemental Charter or the Statutes continue in full force and effect and shall be deemed to have been made pursuant to this Our Supplemental Charter and the Statutes and to the extent appropriate to their content shall be deemed to have the force of Ordinances.

And it is Our Royal Will and Pleasure that this Our Supplemental Charter shall ever be construed benevolently and in every case most favourably to the University.

IN WITNESS whereof We have caused these Our Letters to be made Patent.

WITNESS Ourself at Westminster the eleventh day of December in the sixteenth year of Our Reign.

BY WARRANT UNDER THE QUEEN'S SIGN MANUAL

COLDSTREAM